Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Conwy

Ysgol Porth Y Felin
Ffordd Llanrwst
Conwy
LL32 8FZ

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Conwy

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ysgol Feithrin Conwy |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sylvia Parker |
| Person â gofal | April Switzer |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 25 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8.40am – 3.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mae hwn yn arolygiad ôl-gofrestru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 13/05/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Cryfhau rhyngweithiadau rhwng oedolion a phlant i gefnogi ac ymestyn dysgu plant yn fwy effeithiol

A2. Parhau i ddatblygu cynllunio pwrpasol a sicrhau y caiff arsylwadau ystyrlon eu defnyddio'n effeithiol i lywio camau nesaf plant mewn dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol ynglŷn â'u chwarae. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd, gan ddewis ble a beth i chwarae ag ef yn hyderus, er enghraifft symud rhwng chwarae yn yr hambwrdd reis, peintio neu edrych ar lyfrau yn y gornel ddarllen. Nid oes rhaid i blant sy'n dewis peidio ag ymuno â'u cyfoedion ar y mat ar gyfer amser cylch wneud hynny ac maent yn arsylwi'n hapus o bell. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cynnal diddordeb am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn cyfathrebu'n briodol ag ymarferwyr ac oedolion eraill o'u cwmpas, er enghraifft wrth ofyn am gymorth i wisgo ffedog cyn peintio. Mae plant yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu barn ac yn parchu eu hymdrechion i gyfathrebu. Mae plant yn gwenu'n falch pan fyddant yn cael clod a chanmoliaeth gan ymarferwyr.

Mae plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd, gan fynd i chwarae ar unwaith. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac yn mwynhau mynychu. Mae'r ychydig ohonynt sy'n ofidus yn cael sicrwydd a gallant aros yn agos at ymarferwyr cyfarwydd y maent yn ymddiried ynddynt. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfn y dydd ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yng ngofal ymarferwyr y mae ganddynt berthynas gadarnhaol â nhw. Maent yn magu hyder trwy gyfleoedd addas i wneud eu penderfyniadau eu hunain am deganau a gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu'n gadarnhaol ac yn hyderus ac yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn mwynhau ymuno â gweithgareddau grŵp fel chwarae dŵr, plannu hadau tomatos a gwrando ar storïau. Mae llawer ohonynt yn dechrau deall anghenion pobl eraill, cydweithio'n dda wrth chwarae ac yn rhannu adnoddau'n briodol. Er enghraifft, pan fydd dau blentyn eisiau'r un rhaw yn yr hambwrdd tywod, cânt eu cynorthwyo i chwilio am un arall fel bod ganddynt un yr un. Mae plant yn mynd at ymarferwyr yn rhwydd ac yn hyderus i gael eu cofleidio pan fyddant yn dymuno.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn archwilio eu hamgylchedd yn frwdfrydig. Maent yn ymgysylltu'n dda â gweithgareddau ac yn mynegi eu mwynhad. Er enghraifft, maent yn sgrechian â chyffro yn ystod amser cylch pan fyddant yn dyfalu pa drychfilod y gallant ddod o hyd iddynt yn yr ardd. Maent yn rhannu'n eiddgar â phawb pan fyddant yn dod o hyd i'r trychfilod gwahanol yn ddiweddarach.

Mae plant yn mwynhau cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus ac yn eu hamser eu hun. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol ac yna'n golchi ac yn sychu eu dwylo. Maent yn dewis eu byrbryd o ffrwythau a thost ac yn tywallt eu diodydd eu hunain o jwg i gwpanau.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn meithrin perthynas ymddiriedus ag ymarferwyr a chyfoedion ac yn dysgu i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion yn glir. Mae llawer ohonynt yn dangos empathi a gofal tuag at eu cyfoedion. Mae'r rhyngweithiadau cadarnhaol hyn yn helpu plant i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n effeithiol, gan wrando'n astud ac ymateb â diddordeb yn ystod amser stori. Mae bron pob un ohonynt yn dangos chwilfrydedd am y byd naturiol ac mae ychydig o blant yn gofyn cwestiynau meddylgar ac yn rhannu eu syniadau, sy'n dangos eu dealltwriaeth a'u rhesymu. Er enghraifft, pan fydd un plentyn yn awgrymu y gallai pryf fyw yn y nyth, mae plant eraill yn anghytuno'n hyderus ac yn awgrymu y gallai fod yn aderyn neu'n wylan. Mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol pan ofynnir iddynt orffen chwarae yn yr ardd, gan ddangos medrau gwrando da ac ymwybyddiaeth gadarn o arferion dyddiol.

Gwna llawer o blant gynnydd da wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o eiriau ac ymadroddion Cymraeg. Maent yn siarad am yr eitemau bwyd a'r rhifau o stori ac mae ychydig o blant yn ymuno i ganu caneuon Cymraeg. O ganlyniad i amlygiad cyson ac anogaeth ysgafn, maent yn dod yn fwy hyderus wrth adnabod a defnyddio geiriau Cymraeg mewn caneuon, storïau a sgyrsiau.

Mae llawer o blant yn dangos mwynhad wrth archwilio llyfrau stori cyfarwydd. Maent yn troi'r tudalennau'n annibynnol ac yn gwneud sylwadau am ddarluniau, wrth i ychydig ohonynt ailadrodd rhannau o'r stori. Mae llawer yn dechrau cydnabod bod ystyr i lythrennau, er enghraifft wrth iddynt ddewis eu henwau eu hunain wrth hunangofrestru. O ganlyniad, mae plant yn datblygu medrau llythrennedd cynnar yn briodol ynghyd ag agwedd gadarnhaol at ddarllen ac iaith ysgrifenedig.

Mae llawer o blant yn dechrau deall bod gan symbolau ystyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos rheolaeth a hyder da wrth ddefnyddio technoleg, er enghraifft tynnu lluniau â dyfais electronig. Mae llawer o blant yn dangos mwynhad a chwilfrydedd wrth chwarae â'r lindysyn codio, gan ddangos dealltwriaeth gynnar o sut y gellir ei raglenni i symud. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau rhifedd a digidol cynnar trwy chwarae. Mae llawer o blant yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau ac yn defnyddio iaith fel *"more"* a *"less"* i ddisgrifio'r newidiadau wrth gymysgu lliwiau toes. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau rhesymu cynnar, datrys problemau ac iaith fathemategol priodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu rheolaeth dda wrth wneud marciau. Maent yn tynnu lluniau wynebau â nodweddion fel llygaid a chegau. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau corfforol yn dda yn yr awyr agored, gan fagu hyder a chydsymudiad wrth iddynt yrru beiciau a sgwteri a cherdded ar draws y trawstiau cydbwyso â rheolaeth gynyddol. Yn ystod chwarae rhydd yn yr ardd, maent yn dringo coed ac yn mentro'n hyderus, gan ddangos cryfder a stamina da. Mae hyn yn annog plant llai hyderus i roi cynnig ar goed llai yn gyntaf cyn ymuno â'u ffrindiau ar rai uwch.

Mae medrau creadigol plant yn datblygu'n briodol. Maent yn mwynhau canu hwiangerddi ac yn ymgymryd â rolau gwahanol yn yr ardal chwarae cartref, sy'n cefnogi eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chreadigol yn dda. Maent yn defnyddio eu dychymyg i gymharu gwrthrychau, fel neilltuo rolau mam a dad yn chwareus i lwyau pren o wahanol feintiau.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol pwysig wrth iddynt ryngweithio â phobl eraill a rheoli eu teimladau. Yn aml, maent yn aros eu tro ac yn gofyn yn gwrtais i rannu adnoddau, gan ddangos amynedd a pharch cynyddol. Mae ychydig o blant yn dechrau dysgu i reoli teimladau o rwystredigaeth wrth chwarae ar y cyd, a gyda chefnogaeth gan oedolion, maent yn dechrau mynegi eu hemosiynau mewn ffyrdd cadarnhaol. Mae'r profiadau hyn yn eu helpu i feithrin empathi, hunanreoleiddio a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr drefniadau addas i gadw plant yn iach. Maent yn cynnig byrbrydau iach, llaeth neu ddŵr i yfed ac yn annog plant i olchi eu dwylo, gan eu helpu i ddatblygu eu harfer hylendid personol yn dda. Mae ymarferwyr yn glanhau arwynebau cyn ac ar ôl eu defnyddio, gan ddilyn gweithdrefnau rheoli haint yn dda. Maent yn annog plant i fod yn egnïol ac i chwarae y tu allan yn yr awyr agored yn ddyddiol ac yfed dŵr mewn tywydd poeth ac yn sicrhau bod pawb yn defnyddio eli haul.

Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel trwy roi gweithdrefnau addas ar waith, fel cwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd, cofnodion damweiniau a rhoi cymorth cyntaf. Maent yn cynnar ymarferion tân rheolaidd, sy'n helpu plant ac ymarferwyr i ddod yn gyfarwydd â'r weithdrefn i'w dilyn os oes rhaid iddynt adael yr adeilad. Mae ymarferwyr yn rhoi negeseuon diogelwch wrth chwarae yn yr ardd, er enghraifft pan fydd plant yn rhedeg i lawr llethr neu'n dringo coed. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn cyfathrebu â'r plant mewn modd cynnes a chyfeillgar ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod eu gweithgareddau chwarae. Maent yn ddelfryd ymddwyn gadarnhaol i'r plant. Er enghraifft, wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, mae ymarferwyr yn modelu ac yn esbonio pwysigrwydd rhannu. Maent yn cynnig cyfleoedd ystyrlon i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd ac yn sgwrsio â'r plant yn ystod amser byrbryd ac maent yn cymryd rhan yn weithredol yn chwarae rhydd plant, pan fydd yn briodol. Mae ymarferwyr yn sensitif i anghenion plant ac yn ymyrryd yn effeithiol er mwyn atal unrhyw anghytuno. Maent yn rhoi digon o anogaeth ac yn sicrhau bod canmoliaeth yn cael ei defnyddio'n ystyrlon pan fydd plant yn garedig, yn rhannu adnoddau ac yn cymryd eu tro. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn estyn llaw ac yn dangos empathi tuag at blentyn arall sy'n amlwg yn ofidus, maent yn rhoi canmoliaeth am fod mor garedig a meddwl am bobl eraill. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu ymdeimlad o falchder yn eu cyflawniadau.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn garedig tuag at y plant ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn bodloni anghenion unigol plant yn effeithiol, gan gynnwys y rhai y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ac mae prosesau ar waith, yn ôl yr angen. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn trafod eu hoffterau, eu cas bethau ac unrhyw ymddygiad a all fod yn groes i gymeriad plentyn penodol. Maent yn rhannu ac yn dathlu cyflawniadau plant ymysg ei gilydd â balchder pur. Mae ymarferwyr yn nodi gweithgareddau y mae plant unigol wedi dangos diddordeb ynddynt, i'w helpu i ymdawelu pan fyddant yn ofidus.

Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau priodol a gweithgareddau dewis rhydd sy'n hybu datblygiad cyffredinol plant. Maent yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod y dydd. Er enghraifft, maent yn canu caneuon Cymraeg, yn enwi lliwiau, y tywydd ac yn cyfrif i ddeg yn y Gymraeg.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr wedi datblygu amgylchedd dysgu dan do effeithiol ac amgylchedd awyr agored addas sy'n ddiogel, yn ddifyr ac yn llawn cyfleoedd i archwilio. Mae gan lawer o ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, gan gynnwys pwysigrwydd gweithredu fel oedolion sy'n galluogi dysgu, sy'n cefnogi dysgu trwy ryngweithiadau sensitif ac anogaeth amserol. Maent yn dechrau defnyddio diddordebau a syniadau plant i gynllunio profiadau pwrpasol i fodloni anghenion y plant. Er enghraifft, wrth gynllunio ar gyfer thema, maent yn credu ardaloedd dysgu sydd wedi'u seilio ar syniadau a awgrymwyd gan y plant. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith y plant ac yn eu cymell i archwilio a dysgu mewn amgylchedd y maent wedi helpu i'w lunio.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddewis eu chwarae. Yn ystod rhannau strwythuredig o'r dydd, fel rhannu stori, mae ymarferwyr yn cefnogi grwpiau bach o blant yn fedrus trwy fodelu iaith ac ymddygiad da. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu â sesiynau stori a gallant ymateb yn briodol. Weithiau, mae ymarferwyr yn annog plant i siarad am eu dysgu trwy ofyn cwestiynau meddylgar fel *"what's happening now?"* a *"what are you making now?"*. Mae'r dull meddylgar hwn yn helpu i atgyfnerthu'r dysgu ac yn cefnogi plant yn dda i ddatblygu eu medrau ymresymu a chyfathrebu.

Mae ymarferwyr yn annog plant yn weithredol i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod y dydd trwy ganu ac ailadrodd. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn annog y plant i ailadrodd enwau'r byrbrydau yn y Gymraeg ac yn defnyddio geiriau fel 'llefrith' a 'diolch'. Mae hyn yn helpu plant yn llwyddiannus i ddatblygu cynefindra a hyder wrth ddeall y Gymraeg. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu ymdeimlad o berthyn. Maent yn cynllunio profiadau gwerthfawr sy'n helpu plant i ddysgu am eu hardal leol. Er enghraifft, maent yn ymweld â thirnodau pwysig fel Castell Conwy i ddysgu am storïau o'r gorffennol.

Mae ymarferwyr yn cyfoethogi profiadau plant trwy gynllunio cyfleoedd priodol i archwilio gwyliau a dathliadau diwylliannol pwysig. Er enghraifft, maent yn helpu plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o Diwali trwy wehyddu patrymau rangoli. Mae hyn yn helpu i wella eu medrau creadigol wrth ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae ymarferwyr yn rhoi sylw da i ddatblygiad moesol plant. Er enghraifft, maent yn annog gweithredoedd caredig ac yn dathlu'r rhain trwy arddangosfeydd ar y waliau a rhannu gwybodaeth â rhieni. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dangos empathi tuag at eu cyfoedion.

Mae'r lleoliad yn cefnogi medrau rhifedd plant yn dda. Mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant gyfrif a datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol trwy chwarae. Er enghraifft, mae'n darparu llinynnau i greu patrymau â gleiniau a chasgliad o gloriannau gwahanol i fesur yn y gegin.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau corfforol. Maent yn darparu adnoddau gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau echddygol bras yn yr amgylchedd awyr agored. Er enghraifft, mae plant yn dewis cerbydau gwahanol ag olwynion i'w gyrru ac yn rhoi powlenni mewn trefn i'w rholio i lawr. Mae'r profiadau cyfoethog hyn yn hybu ymwybyddiaeth ofodol, cydsymudiad a chydbwysedd plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn modelu chwarae'n briodol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, cyn eu hannog i roi cynnig arni. Er enghraifft, wrth yr hambwrdd dŵr, maent yn dangos i'r plant sut i lenwi can dyfrio â bicer, gan ddefnyddio geirfa fel "*full*" a "*pour*". O ganlyniad, caiff plant eu cefnogi i ddatblygu eu medrau meddwl beirniadol a'u medrau iaith. Mae llawer o ymarferwyr yn annog plant i 'roi cynnig arni'. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymyrryd ar adegau priodol bob tro i gefnogi plant pan fyddant yn wynebu heriau. Gall hyn lesteirio datblygiad a medrau datrys problemau plant yn anfwriadol.

Mae ymarferwyr yn dechrau gwneud arsylwadau perthnasol am chwarae a dysgu plant ac yn gwneud sylwadau defnyddiol am gynnydd plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth bob tro i gynllunio'r camau nesáu mewn dysgu plant.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a sicr. Maent wedi sefydlu systemau effeithiol, gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig a gwiriadau dyddiol o'r ystafelloedd, sy'n lleihau neu'n dileu peryglon posibl. Mae system ddiogel i reoli mynediad i'r lleoliad ac maent yn cefnogi manylion ymwelwyr yn gyson. Caiff y lleoliad ei gynnal a chadw'n dda ac yn lân ac mae arferion effeithiol i helpu i atal croeshalogi, er enghraifft glanhau a diheintio adnoddau ac offer.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd deniadol i blant, sydd wedi'i addurno'n dda. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant fod yn egnïol ac yn annibynnol dan do. Mae'r safle'n groesawgar ac yn gyfeillgar, gan gynnig lle a chyfleusterau addas i fodloni anghenion plant. Mae arweinwyr yn addurno'r amgylchedd ag arddangosiadau, sy'n dathlu gwaith celf a chrefft cyfredol y plant, yn ogystal â ffotograffau o aelodau teulu'r plant. Mae'r bwrdd caredigrwydd yn dathlu gweithredoedd caredig a welwyd gan ymarferwyr, fel plentyn yn helpu un arall i agor eu bocs bwyd. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn eu helpu i deimlo'n falch o'r hyn maent wedi'i gyflawni. Mae arweinwyr yn caniatáu i bob grŵp oedran fanteisio ar yr ardal tu allan ac mae ymarferwyr yn ei defnyddio'n briodol, gan roi dewis i'r plant chwarae yn yr awyr agored er mwyn iddynt fod yn egnïol. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd awyr agored yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyffrous i blant, sy'n eu cefnogi i ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys gardd fawr a defnydd llawn o fuarth ac offer yr ysgol, pan nad yw'r plant hŷn yn eu defnyddio.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn darparu adnoddau o ansawdd da i blant, sy’n cefnogi eu hanghenion a’u cam datblygu yn dda. Mae arweinwyr yn darparu casgliad addas o adnoddau sy’n helpu plant i ddatblygu ystod o fedrau. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau gwneud eu toes eu hunain ac yn datblygu eu gwaith celf yn yr ardal beintio.

Mae plant yn elwa ar ddetholiad mawr o lyfrau yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae ardaloedd chwarae rôl, fel y gornel gartref, yn cynnig llestri a chyllyll a ffyrc go iawn. Mae ymarferwyr yn cadw teganau ac adnoddau’n ddiogel ac mae popeth yn hygyrch i’r plant. Mae hyn yn galluogi plant i ddewis yn annibynnol a dychwelyd eitemau pan fyddant wedi gorffen chwarae â nhw, ynghyd â helpu i gadw adnoddau mewn cyflwr da.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr wedi sefydlu amgylchedd anogol lle mae ymarferwyr yn cydweithio’n dda â’i gilydd. Maent yn cefnogi ac yn buddsoddi’n weithredol mewn ymarferwyr, gan feithrin ethos tîm cadarnhaol ac uno pawb o’u cwmpas mewn ymdeimlad o bwrpas cytûn. Mae arweinwyr yn darparu lle gofalgar a chroesawgar i blant archwilio a theimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi wrth iddynt ddysgu trwy chwarae. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar blant trwy eu helpu i deimlo’n ddiogel, yn hyderus a’u bod yn cael eu cefnogi’n emosiynol. Mae arweinwyr wedi datblygu datganiad clir o ddiben, sy’n adlewyrchu’r gwasanaeth sy’n cael ei gynnig yn gywir.

Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant yn effeithiol i nodi cryfderau’r lleoliad a’i feysydd i’w datblygu. Maent yn cydweithio’n agos â phartneriaid, gan gynnwys yr awdurdod lleol, i werthuso cynnydd yn erbyn targedau gwella ac asesu’r effaith ar ddysgu a datblygiad plant. Maent yn gosod y targedau hyn trwy ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol, gan ddefnyddio adborth gan rieni, adroddiadau gan bartneriaid a gwerthusiadau’r ymarferwyr eu hunain o’r ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i addasu strategaethau i fodloni anghenion plant yn well. Mae arweinwyr yn dyrannu cyllid yn briodol i fynd i’r afael â meysydd i’w gwella.

Mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau addas ar gyfer dysgu proffesiynol ymhlith ymarferwyr. Maent yn trefnu cymorth a hyfforddiant buddiol, sy’n canolbwyntio ar anghenion unigolion a blaenoriaethau’r lleoliad. Er enghraifft, maent yn cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol i gefnogi ymarferwyr i gynllunio’r ddarpariaeth ac yn gwneud arsylwadau defnyddiol i gefnogi dysgu plant yn well. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i wella eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o ddatblygiad plant. Mae arweinwyr yn rhoi prosesau recriwtio diogel a phriodol ar waith. Maent yn cefnogi ymarferwyr trwy eu goruchwylio’n rheolaidd a thrwy arfarniadau blynyddol, sy’n sicrhau bod pawb yn datblygu’n briodol yn eu rolau.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas agos â rhieni, gan eu galluogi i rannu gwybodaeth yn rheolaidd am y lleoliad a chynnydd plant trwy sgyrsiau a thrwy ddefnyddio platfform digidol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwrando ar rieni ac yn ystyried eu safbwyntiau wrth gynllunio'r gwasanaeth. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae arweinwyr yn darparu profiad dysgu mwy personol i bob plentyn. Mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau pontio addas â'r ysgol y mae wedi'i lleoli ynddi. Mae hyn yn cefnogi plant a'u teuluoedd i ymgyfarwyddo â'r ysgol ac yn trosglwyddo plant yn esmwyth i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r partneriaethau llwyddiannus hyn yn cael effaith gadarnhaol ar rediad rhwydd y lleoliad.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2025